# CBAC Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau

## Uned 9: Ymchwilio i faterion cyfoes ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

Mae'r cymhwyster hwn yn rhan o'r gyfres newydd o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant yng Nghymru a ddarperir gan City&Guilds/CBAC.

Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

I'w asesu gyntaf o 2024

## Deunyddiau Asesu Enghreifftiol (Mewnol)

Fersiwn 3 - Ionawr 2024



# CRYNODEB O NEWIDIADAU

| Fersiwn | Disgrifiad | Rhif y dudalen |
|---|---|---|
| 2 | Band Marc Ychwanegol ar gyfer Tasg 2 b) wedi'i gynnwys yn y cynllun marc. | 10 + 11 |
| 3 | Diweddarwyd datganiadau Taflen Farciau'r Ganolfan. | 17 |

© WJEC CBAC Cyf.

# Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| Aseiniad | 1 |
| Gwybodaeth i ymgeiswyr | 3 |
| Cynllun Marcio | 5 |
| Taflen Farcio'r Ganolfan | 16 |
| Mapio | 18 |


© WJEC CBAC Cyf.

# LEFEL 3 IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU

4973N9

ASESIAD (ASESIAD DI-ARHOLIAD MEWNOL)

**UNED 9 ASESIAD DI-ARHOLIAD: Ymchwilio i faterion cyfoes ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru**

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Mae'r pecyn hwn ar gyfer ymgeiswyr sy'n cwblhau Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau. Mae'n cynnwys y wybodaeth y bydd ei hangen arnoch chi i gwblhau eich asesiad ar gyfer Uned 9 Ymchwilio i faterion cyfoes ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae'r asesiad hwn yn gofyn i chi ymchwilio i fater cyfoes o'ch dewis sy'n effeithio ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Yn y pecyn hwn, mae manylion am y canlynol:
- cyflwyniad i'r aseiniad a'ch tasgau asesu
- gwybodaeth i ymgeiswyr, sy'n dweud wrthych am bethau y bydd yn rhaid i chi eu gwneud a pheidio â'u gwneud wrth gwblhau'r asesiad
- y cynllun marcio a fydd yn cael ei ddefnyddio i asesu eich gwaith
- taflen Datganiad Ymgeisydd y bydd yn rhaid i chi ei llenwi a'i llofnodi wrth gyflwyno eich gwaith i gael ei farcio.

Byddwch yn ymchwilio i effeithiau eich mater cyfoes ar iechyd a llesiant unigolion, ac ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Yn ogystal â gwneud gwaith ymchwil annibynnol i'ch mater cyfoes, byddwch hefyd yn defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth a gawsoch o bob rhan o'r cymhwyster.

Gallwch drafod eich dewis o fater â'ch athro. Dylech gynllunio eich gwaith ymchwil, gan ystyried y deilliannau sy'n ofynnol ar gyfer pob tasg.

Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar yr adnoddau y gallwch eu defnyddio wrth wneud ymchwil.

Y dystiolaeth ar gyfer y dasg hon fydd darn estynedig o ysgrifennu, tua 5,000 o eiriau o hyd (heb gynnwys data, cyfeiriadau a llyfryddiaeth).

© WJEC CBAC Cyf.

**Mae'n ofynnol i chi ymchwilio i fater cyfoes o'ch dewis sy'n effeithio ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.**

**Byddwch yn ymchwilio i effeithiau eich mater cyfoes ar iechyd a llesiant unigolion, ac ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.**

## Tasg 1 – Cynllunio eich project ymchwil

Amlinellwch sut y byddwch yn cynnal yr ymchwiliad i'r mater cyfoes.

(12 marc)

Yn cynnwys:

- darparu sail resymegol glir ar gyfer project sy'n berthnasol i'r sector
- pennu nodau ac amcanion priodol a realistig.
- cynllunio dulliau ymchwil priodol a pherthnasol
- diffinio blaenoriaethau a meini prawf llwyddiant
- penderfynu sut bydd adnoddau, graddfeydd amser a risgiau posibl yn cael eu rheoli
- rheoli a blaenoriaethu gwaith
- gwneud ystyriaethau moesegol.

## Tasg 2 – Cwblhau eich project ymchwil

**Gwnewch waith ymchwil eilaidd i'r mater cyfoes rydych chi wedi'i ddewis a'i effeithiau ar iechyd a llesiant unigolion yng Nghymru.**

**Mae'n ofynnol i chi lunio adroddiad (tua 5,000 o eiriau) yn cyflwyno canfyddiadau eich gwaith ymchwil. Dylai eich adroddiad gynnwys y canlynol:**

a) Esboniad o'r mater cyfoes, gan gynnwys sut mae'n effeithio ar:
- iechyd a llesiant unigolion yng Nghymru o ran anghenion Corfforol, Deallusol, Ieithyddol, Emosiynol a Chymdeithasol (effaith ar fywydau beunyddiol).
- gwasanaethau yng Nghymru (ffeithiau ac ystadegau, darlun o'r mater yng Nghymru).

(14 marc)

b) Gwerthusiad o addasrwydd gwaith ymchwil sydd wedi'i gyhoeddi (gan gynnwys data) i'r mater cyfoes rydych chi wedi'i ddewis, gan ystyried:
- y mathau o waith ymchwil sydd wedi'u cyhoeddi (cynradd ac eilaidd)
- dibynadwyedd, dilysrwydd a chredadwyedd y gwaith ymchwil a'r sefydliadau sy'n cyfrannu at ei wneud a'i gyhoeddi.

(18 marc)

c) Dadansoddiad o waith ymchwil a data dethol, gan gynnwys patrymau a thueddiadau a gwneud cysylltiadau rhwng gwahanol ffynonellau; lle y bo'n berthnasol, dylech ystyried:
- cyfyngiadau'r gwaith ymchwil
- unrhyw faterion moesegol mewn perthynas â'r gwaith ymchwil sy'n cael ei wneud.

(18 marc)

ch) Esboniad o'r ffordd y mae gwaith ymchwil i'r mater cyfoes rydych chi wedi'i ddewis yn cael ei ddefnyddio, neu wedi cael ei ddefnyddio, i wneud y canlynol:
- llywio'r broses o ddatblygu deddfwriaeth, polisïau a strategaethau newydd, a diwygio'r rhai sydd eisoes yn bodoli, a/neu
- ddylanwadu ar ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol.

(10 marc)

d) Argymhellion ynglŷn â pha waith ymchwil pellach y gellid ei wneud yn y dyfodol, gan gynnwys pam y byddai gwaith ymchwil o'r fath yn fuddiol.

(10 marc)

© WJEC CBAC Cyf.

# Gwybodaeth i ymgeiswyr

Mae'r wybodaeth ganlynol wedi cael ei haddasu o ddogfen *JCQ Information for candidates –* non-examination assessments[1]. Mae'n rhoi gwybod i chi am rai pethau y mae'n **rhaid** i chi eu gwneud ac y mae'n **rhaid i chi beidio** â'u gwneud wrth i chi gwblhau eich asesiad. Os nad ydych yn deall rhywbeth, **rhaid** i chi ofyn i'ch athro.

## Paratoi eich gwaith

- Os byddwch yn derbyn cymorth ac arweiniad gan unrhyw un heblaw eich athro, **rhaid** i chi ddweud wrth eich athro a bydd yntau wedyn yn cofnodi natur y cymorth a roddwyd i chi.
- Os buoch chi'n gweithio fel rhan o grŵp ar aseiniad, er enghraifft, yn cynnal ymchwil maes, **rhaid** i bob un ohonoch chi ysgrifennu eich cyfrif eich hun o'r aseiniad. Hyd yn oed os yw'r data sydd gennych chi yr un fath, **rhaid** i chi ddisgrifio yn eich geiriau eich hun sut cafwyd y data hynny a **rhaid i chi ddod i'ch casgliadau eich hun am y data yn annibynnol**.
- Cymerwch ofal o'ch gwaith a'i gadw'n ddiogel. **Peidiwch** â'i adael o gwmpas lle gall eich cyd-ddisgyblion ddod o hyd iddo neu ei rannu ag unrhyw un, gan gynnwys ei rannu ar y cyfryngau cymdeithasol. **Rhaid** i chi bob amser gadw eich gwaith yn ddiogel ac yn gyfrinachol wrth i chi ei baratoi; **peidiwch** â'i rannu â'ch cyd-ddisgyblion. Os byddwch yn ei gadw ar rwydwaith cyfrifiadur, cadwch eich cyfrinair yn ddiogel. Casglwch yr holl gopïau o'r argraffydd a dinistriwch y rheini nad oes eu hangen arnoch.
- **Peidiwch** â chael eich temtio i ddefnyddio atebion ar-lein wedi'u paratoi ymlaen llaw – twyllo yw hyn. Gall offer electronig sy'n cael eu defnyddio gan CBAC ganfod y math hwn o gopïo.
- **Ni ddylech** ysgrifennu deunydd amhriodol, anweddus na sarhaus.

## Gwaith ymchwil a defnyddio cyfeiriadau

- Wrth gynhyrchu darn o waith, os ydych chi'n defnyddio'r un geiriad â ffynhonnell gyhoeddedig, **rhaid** i chi roi dyfynodau o amgylch y darn a nodi o ble y daeth.
- **Rhaid** i chi wneud yn siŵr eich bod chi'n rhoi cyfeiriadau manwl i bopeth yn eich gwaith heblaw am eich geiriau eich hun.
- Yn achos deunydd o'r rhyngrwyd, dylai eich cyfeiriad ddangos y dyddiad y lawrlwythwyd y deunydd a **rhaid** dangos yr union dudalen we, nid y peiriant chwilio a ddefnyddiwyd i ddod o hyd iddo.
- **Os byddwch yn copïo geiriau neu syniadau pobl eraill ac nad ydych yn dangos eich ffynonellau mewn cyfeiriadau a llyfryddiaeth, bydd hyn yn cael ei ystyried yn dwyllo.**

## Llên-ladrad

Llên-ladrad yw cymryd geiriau, barn neu syniadau rhywun arall a cheisio honni mai eich gwaith chi ydyw. **Mae'n fath o dwyllo ac mae'n cael ei gymryd o ddifrif. Peidiwch** â meddwl na fyddwch chi'n cael eich dal; mae sawl ffordd o ganfod llên-ladrad:

- gall marcwyr sylwi ar newidiadau yn arddull yr ysgrifennu a'r defnydd o iaith
- mae marcwyr yn arbenigwyr pwnc hynod brofiadol — efallai y byddant wedi darllen y ffynhonnell rydych yn ei defnyddio, neu hyd yn oed wedi marcio'r gwaith rydych wedi copïo ohono
- Gellir defnyddio peiriannau chwilio'r rhyngrwyd a meddalwedd cyfrifiadurol arbenigol i gysylltu ymadroddion neu ddarnau o destun â ffynonellau gwreiddiol ac i ganfod newidiadau mewn gramadeg ac yn arddull yr ysgrifennu neu'r atalnodi.

[1] https://www.jcq.org.uk/wp-content/uploads/2021/08/IFC-NE_Assessments_2021_v4.pdf

© WJEC CBAC Cyf.

## Cosbau am dorri'r rheoliadau

Os gwelir eich bod chi wedi torri'r rheoliadau, byddwch chi'n cael eich cosbi gan ddefnyddio un o'r cosbau canlynol:

- bydd y darn o waith yn cael sero o farciau
- byddwch chi'n cael eich gwahardd o'r asesiad ar gyfer y gyfres arholiadau/cymedroli dan sylw
- byddwch chi'n cael eich gwahardd o'r cymhwyster cyfan ar gyfer y gyfres arholiadau/cymedroli honno
- byddwch chi'n cael eich gwahardd o bob cymhwyster a'ch rhwystro rhag ailgofrestru am gyfnod o amser.

CBAC fydd yn penderfynu pa gosb sy'n briodol.

**Cofiwch – eich cymhwyster chi ydyw felly rhaid mai eich gwaith chi ydyw.**

© WJEC CBAC Cyf.

# CYNLLUN MARCIO

**LEFEL 3**

**IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL**

**EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU – UNED 9**

**4973N9**

© WJEC CBAC Cyf.

**Gwybodaeth i aseswyr am ddefnyddio cynlluniau marcio sy'n seiliedig ar fandiau**

Mae cynlluniau marcio sy'n seiliedig ar fandiau wedi'u rhannu fel bod gan bob band mewn adran ddisgrifydd perthnasol. Mae disgrifydd y band yn disgrifio lefel y perfformiad ar gyfer y band hwnnw. Mae pob band yn cynnwys marciau.

Cyn marcio, dylech ddarllen ac anodi gwaith ymgeisydd yn gyntaf er mwyn nodi'r dystiolaeth sy'n cael ei hasesu. Ar ôl cwblhau'r anodi, gallwch gymhwyso'r cynllun marcio. Proses dau gam yw hon.

**Cam 1** – **Penderfynu ar y band**

Gan ddechrau gyda'r band isaf, dylech edrych ar yr adran briodol o waith yr ymgeisydd a gweld a yw'n cyd-fynd â disgrifydd y band marcio ar gyfer yr adran honno. Os bodlonir disgrifydd y band isaf, dylech symud i fyny i'r band nesaf ac ailadrodd y broses hon ar gyfer pob band nes bydd y disgrifydd yn cyfateb i'r gwaith.

Os yw gwaith ymgeisydd yn trafod agweddau gwahanol ar fandiau gwahanol yn y cynllun marcio, dylid defnyddio dull 'ffit orau' er mwyn penderfynu ar y band ac yna dylid defnyddio gwaith yr ymgeisydd i benderfynu ar y marc o fewn y band. Er enghraifft os yw gwaith ym mand 2 yn bennaf ond bod rhywfaint o'r cynnwys yn waith band 3, byddai'r gwaith yn cael ei roi ym mand 2, ond byddai'r marc a ddyfernir yn agos at frig band 2 oherwydd y cynnwys band 3.

Ni ddylech dynnu marciau oddi ar ymgeiswyr am adael mân bethau allan mewn rhannau dibwys o'u gwaith.

**Cam 2 – Penderfynu ar y marc**

Wedi i'r band gael ei benderfynu, gallwch bennu marc. Bydd CBAC yn darparu deunydd enghreifftiol y rhoddwyd marc iddo yn barod, a dylid defnyddio hwn fel deunydd cyfeirio wrth asesu'r gwaith.

Wrth farcio, gallwch ddefnyddio'r enghreifftiau hyn i benderfynu a yw gwaith ymgeisydd o safon uwch, is neu debyg i'r enghraifft. Caiff aseswyr eu hatgoffa bod angen iddynt gyfeirio'n ôl at y gwaith wrth iddynt gymhwyso'r cynllun marcio er mwyn cadarnhau bod y band a'r marc a ddyrennir yn briodol i'r gwaith a gyflwynwyd.

Os nad yw'r gwaith yn haeddu marc, hynny yw, nid yw'n cynnwys unrhyw beth o arwyddocâd i'r project, neu os na ddarparwyd ateb o gwbl, ni ddylid dyfarnu unrhyw farciau.

**Safoni mewnol**

Os oes mwy nag un athro mewn canolfan, mae'n hanfodol bod gwaith o bob grŵp addysgu'n cael ei safoni'n fewnol. Bwriad hyn yw sicrhau bod yr asesiad terfynol yn adlewyrchu un safon y cytunwyd arni ar gyfer pob grŵp addysgu. Bydd pob canolfan yn derbyn adborth manwl ynglŷn â'r broses gymedroli drwy wefan ddiogel CBAC ar ddiwrnod y canlyniadau.

© WJEC CBAC Cyf.

## UNED 9 ASESIAD DI-ARHOLIAD: Ymchwilio i faterion cyfoes ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru

**Tasg 1**

***Amlinellwch sut y byddwch yn cynnal yr ymchwiliad i'r mater cyfoes.***

**[12 marc]**

| **Band** | *AA1: Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o amrywiaeth o gysyniadau, gwerthoedd a materion allweddol sy'n berthnasol i iechyd a gofal cymdeithasol.* |
|---|---|
| **4** | **10-12 marc**<br>Amlinelliad ardderchog sy'n nodi nodau ac amcanion yn glir ac yn dangos gwybodaeth glir a manwl am gynnal ymchwiliad, gan gynnwys blaenoriaethau a meini prawf llwyddiant pendant.<br><br>Mae'r ymateb yn dangos amlinelliad clir o amserlenni ac yn nodi'n gywir beth yw'r risgiau a sut y cânt eu rheoli.<br><br>Mae amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys llyfrau, cyfnodolion a gwefannau, wedi cael eu nodi'n glir ac mae'r defnydd ohonynt wedi cael ei esbonio'n gywir.<br><br>Mae'r ystyriaethau moesegol wedi'u nodi'n gywir. |
| **3** | **6-9 marc**<br>Amlinelliad da sy'n nodi nodau ac amcanion ac yn dangos gwybodaeth am gynnal ymchwiliad, gan gynnwys blaenoriaethau a meini prawf llwyddiant.<br><br>Mae'r ymateb yn dangos amlinelliad clir o amserlenni ac yn nodi'n gywir beth yw'r risgiau a sut y cânt eu rheoli.<br><br>Mae amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys llyfrau, cyfnodolion a gwefannau, wedi cael eu nodi ac mae'r defnydd ohonynt wedi cael ei esbonio'n gywir.<br><br>Mae'r ystyriaethau moesegol wedi'u nodi'n gywir gan mwyaf. |
| **2** | **3-5 marc**<br>Amlinelliad sylfaenol sy'n pennu nodau ac amcanion ac yn dangos rhywfaint o wybodaeth am gynnal ymchwiliad, gan gynnwys rhai blaenoriaethau a meini prawf llwyddiant.<br><br>Mae'r ymateb yn dangos amlinelliad cadarn o amserlenni ac yn nodi beth yw'r risgiau a sut y cânt eu rheoli.<br><br>Mae rhai ffynonellau, gan gynnwys llyfrau, cyfnodolion a gwefannau, wedi cael eu nodi ac mae'r defnydd ohonynt wedi cael ei esbonio.<br><br>Mae'r ystyriaethau moesegol wedi'u nodi'n rhannol gywir. |

© WJEC CBAC Cyf.

| | |
|---|---|
| **1** | **1-2 farc**<br>Amlinelliad sylfaenol sy'n nodi nodau ac amcanion ac yn dangos rhywfaint o wybodaeth am gynnal ymchwiliad, heb fawr ddim cyfeiriad at flaenoriaethau na meini prawf llwyddiant, os o gwbl.<br><br>Mae'r ymateb yn dangos amlinelliad cadarn o amserlenni ac yn nodi beth yw'r risgiau a sut y cânt eu rheoli.<br><br>Mae rhai ffynonellau, gan gynnwys llyfrau, cyfnodolion a gwefannau, wedi cael eu nodi ac mae'r defnydd ohonynt wedi cael ei esbonio weithiau.<br><br>Mae'r ystyriaethau moesegol wedi'u nodi'n rhannol gywir. |
| | **0 marc**<br>Ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

© WJEC CBAC Cyf.

## Tasg 2

**a) Esboniad o'r mater cyfoes, gan gynnwys sut mae'n effeithio ar:**
- **iechyd a llesiant unigolion yng Nghymru yn nhermau Anghenion Corfforol, Deallusol, Ieithyddol, Emosiynol a Chymdeithasol (effaith ar fywydau beunyddiol)**
- **gwasanaethau yng Nghymru (ffeithiau ac ystadegau, darlun o'r mater yng Nghymru).**

**[14 marc]**

| Band | *AA2: Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o egwyddorion a chyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol* |
|---|---|
| 4 | **12-14 marc**<br>Ymateb ardderchog sy'n rhoi esboniad manwl a chydlynol o'r mater cyfoes a sut mae'n effeithio ar iechyd a llesiant unigolion a gwasanaethau yng Nghymru.<br><br>Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a chywir ynglŷn ag anghenion Corfforol, Deallusol, Ieithyddol, Emosiynol a Chymdeithasol, a'r effaith ar fywydau beunyddiol.<br><br>Rhoddir ffeithiau ac ystadegau manwl i ategu disgrifiad o'r effeithiau ar wasanaethau. |
| 3 | **8-11 marc**<br>Ymateb da sy'n rhoi esboniad cynhwysfawr o'r mater cyfoes a sut mae'n effeithio ar iechyd a llesiant unigolion a gwasanaethau yng Nghymru.<br><br>Mae'r ymateb yn dangos amrywiaeth o wybodaeth a dealltwriaeth gywir ynglŷn ag anghenion Corfforol, Deallusol, Ieithyddol, Emosiynol a Chymdeithasol, a'r effaith ar fywydau beunyddiol.<br><br>Rhoddir ffeithiau ac ystadegau i ategu disgrifiad o'r effeithiau ar wasanaethau. |
| 2 | **4-7 marc**<br>Ymateb sylfaenol sy'n rhoi esboniad cyffredinol o'r mater cyfoes a sut mae'n effeithio ar iechyd a llesiant unigolion a gwasanaethau yng Nghymru.<br><br>Mae'r ymateb yn dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth gywir ynglŷn ag anghenion Corfforol, Deallusol, Ieithyddol, Emosiynol a Chymdeithasol, a'r effaith ar fywydau beunyddiol.<br><br>Rhoddir rhai ffeithiau ac ystadegau i ategu disgrifiad o'r effeithiau ar wasanaethau. |

© WJEC CBAC Cyf.

| | |
|---|---|
| 1 | **1-3 marc**<br>Ymateb cyfyngedig sy'n rhoi esboniad arwynebol o'r mater cyfoes a sut mae’n effeithio ar iechyd a llesiant unigolion a gwasanaethau yng Nghymru.<br><br>Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig ynglŷn ag anghenion Corfforol, Deallusol, Ieithyddol, Emosiynol a Chymdeithasol, a'r effaith ar fywydau beunyddiol.<br><br>Rhoddir rhai ffeithiau ac ystadegau i ategu disgrifiad o'r effeithiau ar wasanaethau. |
| | **0 marc**<br>Ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

**b) Gwerthusiad o addasrwydd gwaith ymchwil sydd wedi'i gyhoeddi (gan gynnwys data) i'r mater cyfoes rydych chi wedi'i ddewis, gan ystyried: [18 marc]**
- **y mathau o waith ymchwil sydd wedi'u cyhoeddi (cynradd ac eilaidd)**
- **dibynadwyedd, dilysrwydd a chredadwyedd y gwaith ymchwil a'r sefydliadau sy'n cyfrannu at ei wneud a'i gyhoeddi.**

| **Band** | *AA3: Dadansoddi a gwerthuso egwyddorion a chyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn dangos dealltwriaeth, gan gynnwys unrhyw ddylanwad ar ymarfer, gan ffurfio barn resymegol a dod i gasgliadau.* |
|---|---|
| **5** | **16-18 marc**<br>Ymateb ardderchog sy'n rhoi gwerthusiad manwl a chraff o waith ymchwil sydd wedi'i gyhoeddi a gaiff ei ddefnyddio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, mewn perthynas â'r mater cyfoes. Yn cynnwys:<br>• gwaith ymchwil cynradd ac eilaidd<br>• data ansoddol a meintiol<br>• y methodolegau ymchwil a gaiff eu defnyddio gan sefydliadau sydd wedi cyhoeddi data<br>• dibynadwyedd, credadwyedd a dilysrwydd.<br><br>Mae'r ymateb yn dangos sgiliau dadansoddi a gwerthuso cyson a phriodol yn cael eu defnyddio mewn ffordd effeithiol. |
| **4** | **12-15 marc**<br>Ymateb da sy'n rhoi gwerthusiad cynhwysfawr o waith ymchwil sydd wedi'i gyhoeddi a gaiff ei ddefnyddio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, mewn perthynas â'r mater cyfoes. Yn cynnwys:<br>• gwaith ymchwil cynradd ac eilaidd<br>• data ansoddol a meintiol<br>• y methodolegau ymchwil a gaiff eu defnyddio gan sefydliadau sydd wedi cyhoeddi data<br>• dibynadwyedd, credadwyedd a dilysrwydd.<br><br>Mae'r ymateb yn dangos sgiliau dadansoddi a gwerthuso cyson a phriodol, gan mwyaf, yn cael eu defnyddio mewn ffordd effeithiol ar y cyfan. |

© WJEC CBAC Cyf.

| | |
|---|---|
| **3** | **8-11 marc**<br>Ymateb boddhaol sy'n rhoi gwerthusiad cynhwysfawr o waith ymchwil sydd wedi'i gyhoeddi a gaiff ei ddefnyddio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, mewn perthynas â'r mater cyfoes. Yn cynnwys:<br>• gwaith ymchwil cynradd ac eilaidd<br>• data ansoddol a meintiol<br>• y methodolegau ymchwil a gaiff eu defnyddio gan sefydliadau sydd wedi cyhoeddi data<br>• dibynadwyedd, credadwyedd a dilysrwydd.<br><br>Mae'r ymateb yn dangos sgiliau dadansoddi a gwerthuso da yn cael eu defnyddio mewn ffordd briodol. |
| **2** | **4-7 marc**<br>Ymateb sylfaenol sy'n rhoi gwerthusiad cyffredinol o waith ymchwil sydd wedi'i gyhoeddi a gaiff ei ddefnyddio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, mewn perthynas â'r mater cyfoes. Yn cynnwys:<br>• gwaith ymchwil cynradd ac eilaidd<br>• data ansoddol a meintiol<br>• y methodolegau ymchwil a gaiff eu defnyddio gan sefydliadau sydd wedi cyhoeddi data<br>• dibynadwyedd, credadwyedd a dilysrwydd.<br><br>Mae'r ymateb yn dangos rhywfaint o sgiliau dadansoddi a gwerthuso'n cael eu defnyddio ond mae'n bosibl nad yw'n ddigon manwl gywir. |
| **1** | **1-3 marc**<br>Ymateb cyfyngedig sy'n rhoi gwerthusiad arwynebol o'r gwaith ymchwil sydd wedi'i gyhoeddi a gaiff ei ddefnyddio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, mewn perthynas â'r mater cyfoes. Yn cynnwys:<br>• gwaith ymchwil cynradd ac eilaidd<br>• data ansoddol a meintiol<br>• y methodolegau ymchwil a gaiff eu defnyddio gan sefydliadau sydd wedi cyhoeddi data<br>• dibynadwyedd, credadwyedd a dilysrwydd.<br><br>Mae'r ymateb yn dangos sgiliau dadansoddi a gwerthuso cyfyngedig yn cael eu defnyddio heb fawr ddim cymhwysedd os o gwbl. |
| | **0 marc**<br>Ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

© WJEC CBAC Cyf.

**c) Dadansoddiad o waith ymchwil a data dethol, gan gynnwys patrymau a thueddiadau a gwneud cysylltiadau rhwng gwahanol ffynonellau; lle y bo'n berthnasol, dylech ystyried:**

- **cyfyngiadau'r gwaith ymchwil**
- **unrhyw faterion moesegol mewn perthynas â'r gwaith ymchwil sy'n cael ei wneud.**

**[18 marc]**

| **Band** | *AA3: Dadansoddi a gwerthuso egwyddorion a chyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn dangos dealltwriaeth, gan gynnwys unrhyw ddylanwad ar ymarfer, gan ffurfio barn resymegol a dod i gasgliadau.* |
|---|---|
| **5** | **16-18 marc**<br>Ymateb ardderchog sy'n rhoi dadansoddiad manwl a llawn perswâd o batrymau a thueddiadau gyda chysylltiadau ardderchog rhwng gwahanol ffynonellau. Mae'r ymgeisydd:<br>• yn nodi unrhyw gyfyngiadau sydd gan y gwaith ymchwil yn glir<br>• yn dehongli a dadansoddi gwybodaeth a data perthnasol yn drylwyr<br>• yn dangos dealltwriaeth lawn o unrhyw faterion moesegol perthnasol<br><br>Mae'r ymateb yn dangos sgiliau dadansoddi/gwerthuso cyson a phriodol yn cael eu defnyddio mewn ffordd effeithiol. |
| **4** | **12-15 marc**<br>Ymateb da sy'n rhoi dadansoddiad cynhwysfawr o batrymau a thueddiadau gyda chysylltiadau da rhwng gwahanol ffynonellau. Mae'r ymgeisydd:<br>• yn nodi unrhyw gyfyngiadau sydd gan y gwaith ymchwil<br>• yn dehongli a dadansoddi gwybodaeth a data yn dda<br>• yn dangos dealltwriaeth dda o unrhyw faterion moesegol perthnasol<br><br>Mae'r ymateb yn dangos sgiliau dadansoddi a gwerthuso cyson, gan mwyaf, yn cael eu defnyddio mewn ffordd effeithiol ar y cyfan. |
| **3** | **8-11 marc**<br>Ymateb boddhaol sy'n rhoi dadansoddiad cymwys o batrymau a thueddiadau gyda rhai cysylltiadau rhwng gwahanol ffynonellau. Mae'r ymgeisydd. Mae'r ymgeisydd:<br>• yn nodi unrhyw gyfyngiadau sydd gan y gwaith ymchwil<br>• yn dehongli a dadansoddi gwybodaeth a data perthnasol yn gadarn<br>• yn dangos dealltwriaeth gadarn o unrhyw faterion moesegol perthnasol<br><br>Mae'r ymateb yn dangos sgiliau dadansoddi a gwerthuso cadarn yn cael eu defnyddio mewn ffordd briodol. |
| **2** | **4-7 marc**<br>Ymateb sylfaenol sy'n rhoi dadansoddiad rhannol o batrymau a thueddiadau gyda chysylltiadau sylfaenol rhwng gwahanol ffynonellau. Mae'r ymgeisydd:<br>• yn nodi unrhyw gyfyngiadau'r gwaith ymchwil<br>• yn dehongli a dadansoddi gwybodaeth a data perthnasol, ond efallai nad yw hyn wedi'i ddatblygu'n ddigonol<br>• yn dangos dealltwriaeth sylfaenol o unrhyw faterion moesegol perthnasol<br><br>Mae'r ymateb yn dangos rhywfaint o sgiliau dadansoddi/gwerthuso'n cael eu defnyddio, ond mae'n bosibl nad yw'n ddigon manwl gywir. |

© WJEC CBAC Cyf.

| | |
|---|---|
| **1** | **1-3 marc**<br>Ymateb cyfyngedig sy'n rhoi dadansoddiad rhannol o batrymau a thueddiadau heb fawr ddim cysylltiadau rhwng gwahanol ffynonellau. Mae'r ymgeisydd:<br>• yn ysgrifennu ymateb nad yw'n cyfeirio rhyw lawer at gyfyngiadau'r gwaith ymchwil, os o gwbl<br>• yn ysgrifennu ymateb nad yw'n dehongli nac yn dadansoddi gwybodaeth a data perthnasol rhyw lawer, ac wedi dangos dealltwriaeth gyfyngedig o unrhyw faterion moesegol perthnasol<br>• yn dangos sgiliau dadansoddi/gwerthuso cyfyngedig yn cael eu defnyddio heb fawr ddim cymhwysedd os o gwbl. |
| | **0 marc**<br>Ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

© WJEC CBAC Cyf.

**ch) Esboniad o'r ffordd y mae gwaith ymchwil i'r mater cyfoes rydych chi wedi'i ddewis yn cael ei ddefnyddio, neu wedi cael ei ddefnyddio, i wneud y canlynol:**

- **llywio'r broses o ddatblygu deddfwriaeth, polisïau a strategaethau newydd, a diwygio'r rhai sydd eisoes yn bodoli, a/neu**
- **ddylanwadu ar ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol.**

**[10 marc]**

| Band | *AA2: Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o egwyddorion a chyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol* |
|---|---|
| 4 | **9-10 marc**<br>Ymateb ardderchog sy'n rhoi esboniad manwl a chydlynol o'r ffordd y caiff gwaith ymchwil ei ddefnyddio i lywio'r broses o ddatblygu deddfwriaeth, polisïau a strategaethau newydd, a diwygio'r rhai sydd eisoes yn bodoli, a/neu'n dylanwadu ar ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol.<br><br>Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a chywir ynglŷn â deddfwriaeth, polisïau a strategaethau. |
| 3 | **6-8 marc**<br>Ymateb da sy'n rhoi esboniad cynhwysfawr o'r ffordd y caiff gwaith ymchwil ei ddefnyddio i lywio'r broses o ddatblygu deddfwriaeth, polisïau a strategaethau newydd, a diwygio'r rhai sydd eisoes yn bodoli, a/neu'n dylanwadu ar ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol.<br><br>Mae'r ymateb yn dangos amrywiaeth o wybodaeth a dealltwriaeth gywir ynglŷn â deddfwriaeth, polisïau a strategaethau. |
| 2 | **3-5 marc**<br>Ymateb sylfaenol sy'n rhoi esboniad cyffredinol o'r ffordd y caiff gwaith ymchwil ei ddefnyddio i lywio'r broses o ddatblygu deddfwriaeth, polisïau a strategaethau newydd, a diwygio'r rhai sydd eisoes yn bodoli, a/neu'n dylanwadu ar ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol.<br><br>Mae'r ymateb yn dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth gywir ynglŷn â deddfwriaeth, polisïau a strategaethau. |
| 1 | **1-2 farc**<br>Ymateb cyfyngedig sy'n rhoi esboniad cyfyngedig o'r ffordd y caiff gwaith ymchwil ei ddefnyddio i lywio'r broses o ddatblygu deddfwriaeth, polisïau a strategaethau newydd, a diwygio'r rhai sydd eisoes yn bodoli, a/neu'n dylanwadu ar ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol.<br><br>Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig ynglŷn â deddfwriaeth, polisïau a strategaethau. |
| | **0 marc**<br>Ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

© WJEC CBAC Cyf.

| | |
|---|---|
| **d)** | **Argymhellion ynglŷn â pha waith ymchwil pellach y gellid ei wneud yn y dyfodol, gan gynnwys pam y byddai gwaith ymchwil o'r fath yn fuddiol.** <br> **[10 marc]** |
| **Band** | *AA3: Dadansoddi a gwerthuso egwyddorion a chyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn dangos dealltwriaeth, gan gynnwys unrhyw ddylanwad ar ymarfer, gan ffurfio barn resymegol a dod i gasgliadau.* |
| **4** | **9-10 marc** <br> Ymateb ardderchog sy'n dangos dealltwriaeth hyderus o ba waith ymchwil pellach y gellid ei wneud, ac sy'n gwneud argymhellion dilys a chyfiawn. |
| **3** | **6-8 marc** <br> Ymateb da sy'n dangos dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o ba waith ymchwil pellach y gellid ei wneud, ac sy'n gwneud argymhellion dilys a chyfiawn ar y cyfan. |
| **2** | **3-5 marc** <br> Ymateb sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o ddealltwriaeth o ba waith ymchwil pellach y gellid ei wneud, ac sy'n gwneud rhai argymhellion dilys a chyfiawn. |
| **1** | **1-2 farc** <br> Ymateb cyfyngedig nad yw'n dangos fawr ddim dealltwriaeth o ba waith ymchwil pellach y gellid ei wneud, ac sy'n gwneud argymhellion cyfyngedig. |
| | **0 marc** <br> Ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

© WJEC CBAC Cyf.

**Lefel 3 Diploma mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau**

**Asesiad di-arholiad: Uned 9 Tasgau 1 a 2**

**Enw'r Ymgeisydd:** **Rhif yr Ymgeisydd:**

**Enw'r Ganolfan:** **Rhif y Ganolfan:**

| Asesiad di-arholiad: Uned 9 Tasgau 1 a 2 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Tasgau | Marc Uchaf | Marc y Ganolfan | Marc y Cymedrolwr | Sylwadau'r Ganolfan |
| Tasg 1 | | | | |
| 1 | 12 | | | |
| Tasg 2 | | | | |
| (a) | 14 | | | |
| (b) | 18 | | | |
| (c) | 18 | | | |
| (ch) | 10 | | | |
| (d) | 10 | | | |
| Cyfanswm | 82 | | | |

© WJEC CBAC Cyf.

| **Asesiad di-arholiad:** Sylwadau |
|---|
| **I'w gwblhau gan yr athro/aseswr.**<br>Nodwch ble cafodd cymorth y tu hwnt i arweiniad-derbyniol ei roi a sut mae hyn wedi effeithio ar y marciau a gafodd eu dyfarnu. |
| |

| HYSBYSIAD I YMGEISWYR |
|---|
| Rhaid i'r gwaith rydych chi'n ei gyflwyno i'w asesu fod wedi ei wneud gennych chi.<br>Os byddwch chi wedi copïo gwaith rhywun arall, wedi caniatáu i ymgeisydd arall gopïo eich gwaith chi, neu wedi twyllo mewn unrhyw ffordd arall, mae'n bosibl y cewch eich diarddel o’r cymhwyster dan sylw o leiaf. |

| DATGANIAD GAN YR ATHRO | DATGANIAD GAN YR YMGEISYDD |
|---|---|
| Rwy'n cadarnhau bod gwaith yr ymgeisydd wedi ei gyflawni o dan yr amodau a nodwyd yn y fanyleb.<br>Rwyf wedi dilysu gwaith yr ymgeisydd ac rwyf yn fodlon, hyd eithaf fy ngwybodaeth, bod y gwaith wedi ei gyflawni gan yr ymgeisydd yn unig.<br>Mae'r ymgeisydd wedi cyfeirio'n glir at unrhyw ffynonellau ac unrhyw offer DA a ddefnyddiwyd yn y gwaith. Rydw i'n deall bod gwneud datganiad ffug yn fath o gamymddwyn.<br><br>**Llofnod yr athro:**<br><br>**Dyddiad:** | Rwyf wedi darllen a deall yr **Hysbysiad i Ymgeiswyr** (uchod).<br>Rwyf wedi cynhyrchu'r gwaith a atodir heb gymorth, heblaw am y cymorth hwnnw mae fy athro wedi esbonio ei fod yn dderbyniol o fewn y fanyleb.<br>Yr wyf wedi cyfeirio'n glir at unrhyw ffynonellau ac unrhyw offer DA a ddefnyddiwyd yn y gwaith. Rydw i'n deall bod gwneud datganiad ffug yn fath o gamymddwyn.<br><br>**Llofnod yr ymgeisydd:**<br><br>**Dyddiad:** |

© WJEC CBAC Cyf.

## Mapio tasgau i gynnwys yr uned a'r amcanion asesu

| Adran | Cynnwys yr uned | | | | | Dyraniad marciau | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tasgau | 9.1 | 9.2 | 9.3 | 9.4 | 9.5 | Cyfanswm Marciau | AA1 Marciau | AA2 Marciau | AA3 Marciau |
| **Tasg 1** | | | ✓ | ✓ | ✓ | **12** | 12 | | |
| **Tasg 2 (a)** | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | **14** | | 14 | |
| **(b)** | | | ✓ | | ✓ | **18** | | | 18 |
| **(c)** | | ✓ | | | ✓ | **18** | | | 18 |
| **(ch)** | | ✓ | | | ✓ | **10** | | 10 | |
| **(d)** | | | | | ✓ | **10** | | | 10 |
| **Cyfanswm** | | | | | | **82** | **12** | **24** | **46** |
| Pwysoliadau'r asesiad hwn (%) | | | | | | **100** | **15** | **29** | **56** |

© WJEC CBAC Cyf.